# DYDD Y CADOEDIAD

Mae Tachwedd 11eg yn cael ei alw'n Ddydd y Cadoediad gan mai ar y dyddiad hwn y daeth y Rhyfel Mawr, sef y Rhyfel Byd Cyntaf, i ben yn 1918. Cytunwyd y dylai'r brwydro ddod i ben ar 'yr unfed awr ar ddeg o'r unfed diwrnod ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg'. Mae'r gair 'cadoediad' yn eithaf dieithr heddiw. Gair cyfansawdd - dau air wedi eu cyfuno - ydyw sef 'cad'( brwydr) ac 'oedi' neu 'oediad'. Ystyr cadoediad yw 'rhoi'r gorau i frwydro'. Mae'r un peth yn wir am y gair Saesneg, '*Armistice Day*', hefyd. Daw hwnnw o ddau air Lladin: *arma* (arfau) a *sistere* (stopio) sy'n golygu 'rhoi'r gorau i ddefnyddio arfau'.

Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi dechrau yn y flwyddyn 1914. Mewn ychydig dros bedair blynedd, roedd 8.5 miliwn o bobl wedi marw, a 20 miliwn yn rhagor wedi cael eu hanafu. Golygodd y niferoedd enfawr hyn nad oedd prin bentref na thref yn y wlad na chollodd ddynion a fu yn rhan o'r brwydro.

Un milwr a gafodd ei ladd oedd y bardd Edward Thomas. Yn ei gerdd, 'The Cherry Trees', mae'n darlunio golygfa hardd o betalau pinc blodau'r gwanwyn wedi disgyn o'r coed ar hyd ffordd wledig. Mae'r petalau tlws yn edrych fel conffeti priodas. Ond, mae teimladau o dristwch mawr oherwydd ar hyd y ffordd hon y gorymdeithiodd y dynion wrth iddyn nhw ymadael i fynd i ymladd yn Ffrainc, a ddaethon  nhw ddim yn ôl.

Yn 1919, flwyddyn ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, gofynnodd y Brenin Siôr V i'r bobl gofio ac anrhydeddu pawb a fu farw wrth wasanaethu eu gwlad. Cynhaliwyd dau funud o dawelwch am 11 o'r gloch, ar yr unfed diwrnod ar ddeg, o'r unfed mis ar ddeg. Bryd hynny, flwyddyn ar ôl diwedd y rhyfel, nid sŵn gynnau a dawelwyd ar Ddydd y Cadoediad ond sŵn y strydoedd prysur a sŵn y traffig.

Yn anffodus, nid y Rhyfel Mawr z 'y rhyfel i roi terfyn ar bob rhyfel', fel yr oedd rhai wedi ei obeithio. Caiff y diwrnod ei ddefnyddio i gofio hefyd am bawb a fu farw mewn rhyfeloedd ers 1914 - yn yr Ail Ryfel Byd, yn Rhyfel y Gwlff, ac yn y gwrthdaro sy'n parhau i ddigwydd mewn llefydd fel Affganistan, er enghraifft. Ond am beth mae rhywun yn meddwl a sut mae rhywun yn teimlo yn ystod y ddau funud yna o dawelwch? Ydych chi'n teimlo'n drist am fod cymaint o bobl yn marw mewn rhyfeloedd? Ydych chi'n syrffedu ar aros yn dawel ac yn llonydd? Ydych chi'n teimlo'n ddiolchgar i'r rhai fu farw drosoch chi? Ydy eich meddwl chi'n crwydro at bethau eraill, fel yr hyn fuoch chi'n ei wneud y noson cynt?



*Edward Thomas*

Neu tybed ydy Dydd y Cadoediad yn creu awydd ynoch chi i weithio dros heddwch? Mae'r Weddi Heddwch Fyd-eang yn dweud

Arwain fi o gasineb i gariad,
o ryfel i heddwch.
Boed i heddwch lenwi ein calonnau,
ein byd, ein bydysawd.

Gobeithio, wir, mai dyna'ch dymuniad chi yn ystod y ddau funud yna o dawelwch.

